# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR

a gynhaliwyd ar y 01 Rhagfyr 2019
am 6.20.yh.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr Rowland Jones, Ann Tudor, Caredig Jones, Dewi Rattray, Meiron Davies, Meic Francis, Ada Evans, Dylan Edwards.**

**ABSENOLDEBAU: John Davies, Meirion Davies, Richard Davies.**

Rhoddwyd croeso cynnes i gyfarfod Mis Rhagfyr gan y Cadeirydd Rowland Jones. Braf oedd gweld gymaint o aelodau'r gymuned yn dod i gefnogi, rhaid dweud roedd yn noson lwyddiannus iawn. Hefyd rhoddwyd diolch i'r busnesau lleol oedd wedi rhoi cymorth nwyddau am y noson, Tesco Aberystwyth a hefyd Keith Siop Y Pentref Llanilar. Diolch i Tom Edwards o TME Electrical am osod o oleuni a hefyd i Caredig Jones am drefnu'r goeden eleni eto. 'Last but not least' diolch arbennig i Sïon Corn am fynychu'r noson eleni eto yn enwedig yn ystod amser prysur iawn o'r flwyddyn!!

Dachraeodd y cyfarfod 6.20. Darllenwyd cofnodion Mis Hydref, cynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Meic Francis Evans ac fe eiliwyd gan y Cyng Ann Tudor.

18/1092 - MATERION YN CODI

1. Nid oedd unrhyw materion yn codi.

18/1093 - LLYTHYRON

1. Llythr oddiwrth Elliot Ryder Conservation yn amlinellu eu gwasanaethau. Nodwyd i gadw'r manylion ar ffeil.
2. Nodyn ffordd ar gau dros dro C1106 Llangwyryfon 08.00 05/12/2019 nes 17:00 12/12/2019
3. Ymateb wrth Rachel J Mills ynglyn ' tacking dog fouling' yn cyfeirio'r cyngor cymuned i edrych at y gwefan i weld os oes unrhyw poster generic sydd yn gyfleus. Yn anffodus, nid oes unrhyw arwyddion addas.
4. Nodyn arall ffordd ar gau dros dro U1252 Maesawelon, Llanilar 08:00 10/12/2019 - 18:00 16/12/2019.

18/1094 - ARIANNOL

1. Cyflog y Clerc ar gyfer mis Rhagfyr £133.26. Cynnigwyd i'w dalu gan y Cyng. Dewi Rattray ac fe eiliwyd gan y Cyng. Ada Evans.

18/1095 – CYNLLUNIO

Cais wedi eu dderbyn ond nid yw'n rhan o Cylch Llanilar.

18/1096 - UNRHYW FATER ARALL

1. Ymholiad wrth un o'r cynghorwyr yn ofyn ble mae'r plac wedi mynd o'r postyn golau yn sgwâr y pentref ar ôl newydd y goleuni yn ddiweddar. Ofynnwyd I'r clerc danfon yr ymholiad yma ymlaen i'r cyngor sir am ateb, ac i nodi fod angen eu dychwelid i'r cyngor cymuned.